Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i:**
**Ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023**
Yn cau 11 Medi 2023

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Enw:** Sarah Capstick
**Sefydliad (os yn berthnasol):** Wales Safer Communities Network

Cwestiynau:

**C1. A ydych yn cytuno bod y cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft yn glir ac yn hygyrch?**
Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cyflwyniad i'r strategaeth?**
Mae'r wybodaeth yn eglur ac yn hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn credu y gellid ei gwella drwy sicrhau y gwneir yn glir am ba hyd y bydd y strategaeth mewn grym. Rydym yn deall o'r gweithdy a gynhaliwyd gennym gydag arweinwyr diogelwch cymunedol ei bod yn strategaeth ddeng mlynedd. Nid yw'n ymddangos fod hyn wedi ei nodi yn y cyflwyniad na'r teitl ac rydym yn credu y byddai hynny'n cynorthwyo o ran eglurder.

**C2a. Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 1 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**
Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**C2b. A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 1 yn glir ac yn hygyrch?**
Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys sy'n gysylltiedig ag Amcan 1?**
Rydym yn cytuno gyda'r amcan a'r manteision o sicrhau'r incwm uchaf posibl tra hefyd lleihau costau, fodd bynnag mae nifer o'r enghreifftiau a ddarparwyd o'r hyn a gaiff ei wneud yn bethau sy'n cael eu gweithredu ar draws y boblogaeth gyfan ac felly nid ydynt o reidrwydd yn benodol i liniaru tlodi plant. Er enghraifft bydd cyflwyno prydau ysgol am ddim i'r holl blant cynradd yn ystod y tymor ysgol o fudd i bob

plentyn waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol, tra bod dod â chymorth yn ystod gwyliau'r ysgol i ben yn effeithio ar y rhai hynny sy'n byw gydag incwm isel neu mewn tlodi yn unig.

Mae ganddi'r potensial i helpu i leihau trosedd os ydych yn edrych ar yr elfen o dlodi o ran plant a phobl ifanc. Bydd y Strategaeth yn gweithio'n dda gyda'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Er enghraifft plant a fyddai fel arall yn teimlo nad oes ganddynt yr arian i fynd gyda'u cyfoedion i wneud gweithgareddau gwahanol, maent wedyn wedi diflasu ac yn defnyddio graffiti ayb.

**C3. A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 1 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud i fynd ar drywydd gwaith o dan Flaenoriaeth 1?**
Rydym yn cytuno gyda'r geiriad yn disgrifio blaenoriaeth 1, ond codwyd pryder ynglŷn â'r defnydd o'r 'hawliad' sengl a glywir weithiau yn ymwneud â digwyddiadau diogelwch cymunedol. Yn y gweithdy a gynhaliwyd gennym gydag ymarferwyr diogelwch cymunedol roedd yna awgrym y gallai'r 'hawliau' lluosog ddatrys hyn a bod yn fwy cywir gan fod y flaenoriaeth yn ymwneud â thair rhan.

**C4a. Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 2 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**
Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**C4b. A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 2 yn glir ac yn hygyrch?**
Ydw ☐
Ansicr ☒
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys sy'n gysylltiedig ag Amcan 2?**
Hoffem weld cyfeiriad at lwybrau cyfreithiol allan o dlodi. Gall llinellau sirol a ffurfiau eraill o weithgarwch troseddol neu gamfanteisio ddarparu llwybr o dlodi, ond nid yw'n llwybr iach na diogel a gall gael effaith niweidiol hirdymor ac o bosibl galluogi cylch o dlodi.

**C5. A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 2 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 2?**

Rydym yn cytuno gydag egwyddorion Gwaith Teg ond rydym yn credu y gallai fod yna fwy o drawsgroesi rhwng y strategaeth hon a'r Cynlluniau Gweithredu LHDTCRhA+, Gwrth-hiliaeth ac Anabledd Dysgu. Dylai gwaith teg gynnwys yr hawl i beidio â dioddef aflonyddu, bwlio neu bod yn destun trais o ganlyniad i'r rôl yr ydych yn ymgymryd â hi. Yn anecdotaidd rydym yn clywed am ymosodiadau cynyddol ar lafar ac yn gorfforol ar staff manwerthu, lletygarwch a chyflenwi a allai olygu fod rhaid iddynt gael amser i ffwrdd o'r gwaith a allai effeithio ar y cyflogau sy'n cael eu hennill. Gall colli oriau neu ddyddiau o waith hefyd effeithio ar y gwasanaethau cefnogi ac felly effeithio ar feysydd eraill o'r strategaeth.

**C6a. Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 3 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒
Ansicr ☐
Nac ydw ☐

**C6b. A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 3 yn glir ac yn hygyrch?**

Ydw ☐
Ansicr ☒
Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys sy'n gysylltiedig ag Amcan 3?**

I nifer mae yna bryderon am dai, tai digonol nad yw'n golygu gorboblogi ac nad ydynt yn destun lleithder a phroblemau eraill a allai effeithio ar les corfforol a meddyliol. Mae ymarferwyr Diogelwch Cymunedol wedi dweud wrth y Rhwydwaith fod plentyn sy'n poeni am dai yn llai tebygol o ymgysylltu gyda'r gwasanaethau cefnogi. Mae hyn yn waeth o ran y rhai hynny sy'n byw mewn llety dros dro. Felly oni bai fod problemau tai yn cael eu datrys mae'n debygol fod y llwybr o dan amcan 2 yn fwy tebygol o fethu.

Tra bod y rhan helaeth o gyfiawnder troseddol yn fater a gedwir yn ôl, mae yna drawsgroesi clir gyda gwasanaethau troseddau ieuenctid ac mae nifer o'r gwasanaethau atal a chefnogi wedi eu datganoli a byddant yn cysylltu gyda rhannau o'r strategaeth hon. Roedd y pryder a godwyd drwy ein gweithdy yn ymwneud â gormodedd o yrwyr polisi, rhaglen a gyrwyr deddfwriaethol sy'n creu tirwedd gymhleth i bobl ei lywio. Mae'r parodrwydd yno a gall hon fod yn Strategaeth hynod

o ddefnyddiol, ond nid yw’r amser a’r gofod sydd eu hangen i weld sut y gall hyn oll ddod ynghyd ar gael bob amser ar draws y sector cyhoeddus. Fe all felly fod yn ddefnyddiol ac o fudd i roi mwy o fanylion am y cydgysylltiad rhwng cyrff datganoledig a chyrff a gedwir o ran cyflawni’r strategaeth.

**C7. A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 3 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 3?**

Rydym ni’n credu y dylai’r flaenoriaeth hon gael ei hymestyn i deithio llesol corfforedig gyda llwybrau troed a beicio da sy’n gwella mynediad a mynediad diogel yn arbennig i blant a phobl ifanc. Mae pobl sy’n byw mewn tlodi yn llai tebygol o fod â defnydd o gar a byddant yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio.

Dylai darparu mannau gwyrdd y gellir eu defnyddio ar gyfer chwarae, chwaraeon neu weithgareddau a diddordebau eraill sy’n gwella lles fod yn rhan o bob cais cynllunio ar gyfer adeiladau newydd. Gan gynnwys sut y bydd pobl yn cael atynt yn ddiogel.

**C8a. Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai <u>Amcan 4</u> fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C8b. A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag <u>Amcan 4</u> yn glir ac yn hygyrch?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys sy'n gysylltiedig ag Amcan 4?**

Tra rydym yn credu fod y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn glir a hygyrch, rydym hefyd yn credu y gallai fod yna rywbeth yn ymwneud â diogelu a allai gael ei gynnwys o dan hyn neu amcan tri. Nid yw cam-drin plant yn effaith uniongyrchol tlodi. Fodd bynnag mae’n hysbys fod gan y rhai hynny sy’n gallu cael annibyniaeth economaidd fwy o opsiynau ar gyfer dianc o gamdriniaeth ddomestig a digwyddiadau diogelu eraill, felly gall tlodi ymestyn y cyfnod y bydd plentyn yn agored i fod yn dyst i gam-drin oedolyn yn y cartref. Mae gan hyn wedyn gysylltiad gyda Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.

Mae angen i hyn fod yn gyfrifoldeb i bawb ac ni ddylai gael ei begynu i un maes fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu Addysg. Mae angen iddo fod yn fusnes i bawb fel nad gwasanaethau a chefnogaeth unigol sy'n cyflawni gydag urddas a pharch ond ymagwedd gyfannol gyfan sy'n cyflawni gyda phlant a'u teuluoedd ac ar eu cyfer.

**C9. A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 4 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 4?**

Rydym yn falch o weld tlodi disgyblion yn cael ei gynnwys ond rydym yn credu y gallai fod angen ychydig o gyfeiriad at y cynnydd mewn technoleg neu yr angen am fynediad at WiFi cyhoeddus wrth i fwy o waith cartref orfod cael ei gwblhau ar-lein neu ymchwil ar-lein. Gall tlodi achosi allgáu digidol sydd wedyn yn cael effaith ar ganlyniadau o ran addysg. Fe fu rhai enghreifftiau yn arbennig yn ystod cyfyngiadau Covid yn ymwneud â galluogi allgáu digidol tra'n sicrhau y gellir cael mynediad at dechnoleg mewn dull diogel sydd wedi'i amddiffyn.

**C10a. Wrth ystyried y gofyniad o dan Fesur Hawliau Plant (Cymru) i Lywodraeth Cymru bennu amcanion a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant, a ydych yn cytuno y dylai Amcan 5 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C10b. A yw'r wybodaeth am yr hyn rydym wedi ei glywed a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Amcan 5 yn glir ac yn hygyrch?**

Ydw ☐

Ansicr ☐

Nac ydw ☒

**A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnwys sy'n gysylltiedig ag Amcan 5?**

Nid yw'n ymddangos fod yna adran 'beth rydym yn ei wneud' ar wahân fel sydd ar gyfer yr amcanion eraill a allai wneud hyn yn fwy eglur. Gall y dirwedd o Fyrddau rhanbarthol a lleol yn ymwneud ag ystod o gyrff cyhoeddus datganoledig a chyrff a gedwir ychwanegu at y cymhlethdod, fel y gall y dirwedd ddeddfwriaethol. Mae cynyddu nifer y dyletswyddau a deddfwriaeth newydd heb adnoddau ychwanegol yn cael effaith ar gapasiti. Caiff Diogelwch Cymunedol ei gyflawni drwy ymagweddau o bartneriaethau ar draws yr Heddlu, Cynghorau, Gwasanaethau Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf, sefydliadau a chyrff trydydd sector a phreifat yng Nghymru.

Mae'n hysbys fod cyd-leoli yn gwella gweithio mewn partneriaeth ac yn gwella'r cyfleoedd i rannu adnoddau ac felly rydym yn credu y gallai fod yn rhywbeth a allai gael ei gryfhau o fewn y strategaeth ac y gallai gynorthwyo yn yr un ymagwedd gyfannol a gefnogir ar gyfer cefnogaeth a gwasanaethau.
Codwyd cyllid fel mater parhaus yn y gweithdy. Gall cyllid tymor byr o fewn blwyddyn y mae'n rhaid cystadlu amdano fygu cydweithio ac mae'n cael effaith negyddol posibl ar gadw staff a allai wedyn effeithio'n negyddol ar amcanion cynharach. Yn aml nid yw cynnig ar gyfer prosiectau arloesol a newydd yn ddigon i sefydlu, cynnal a gwerthuso gan arwain at brosiectau tymor byr sy'n mynd a dod ac ni allant ddarparu'r cysondeb ac mae'n arwain at loteri cod post o ran yr hyn sydd ar gael i blentyn neu deulu mewn tlodi yn dibynnu ar lle maent yn byw.

**C11. A ydych yn cytuno y dylai Blaenoriaeth 5 fod yn un o flaenoriaethau'r strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 5?**

Nid yw diogelwch cymunedol yn gweithredu mewn seilos ac felly gwerthfawrogir unrhyw beth sy'n galluogi ac yn hyrwyddo cydweithio a thorri rhwystrau, cyn belled ag y cefnogir hyn gan gamau gweithredu. Roeddem wedi ein syfrdanu na chrybwyllwyd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y flaenoriaeth hon, yn arbennig yng ngoleuni'r pum ffordd o weithio.
Nododd rhai o'r rhai hynny a ddaeth i'r gweithdy eu bod wedi ceisio mynd i'r afael â thlodi plant ar sawl achlysur fel sefydliadau unigol, ac nid yw hyn wedi gweithio. Dyma pam fod perchnogaeth gyfannol yn hanfodol – mae tlodi yn fusnes i bawb.
Fe ddylai'r flaenoriaeth a'r strategaeth hon helpu cydweithwyr ar draws y Cynghorau a phartneriaid i ddeall sut y gall darnau o waith effeithio ar dlodi. Gall partneriaid trydydd sector gynorthwyo o ran y ddealltwriaeth o sut beth yw tlodi a brofwyd a'r wybodaeth maent wedi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y ffordd o feddwl tua'r dyfodol. Mae'n bwysig fod y partneriaid yn cymryd persbectif "tlodi" gan ganolbwyntio ar sut i feithrin ffyniant, uchelgais a dyhead.

**C12. A ydych yn cytuno bod yr adran sy'n nodi'r ffordd y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno yn glir ac yn hygyrch?**

Ydw ☐

Ansicr ☒

Nac ydw ☐

**A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn rydym yn ei ddweud o ran sut y byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adrodd arno?**

Mae yna ddibyniaeth ar adrodd yn erbyn cynlluniau lles nad ydynt o bosibl yn canolbwyntio'n benodol ar dlodi plant ond ar dlodi ehangach neu nad oes ganddynt dlodi o bosibl o fewn eu blaenoriaethau mewn rhai ardaloedd lleol neu ranbarthau. Mae rhai wedi cymryd tlodi fel strategaeth ar wahân gan y teimlwyd ei fod yn cael ei

golli o fewn y cynllun lles. Dyma fater rydym hefyd yn ei ganfod gyda diogelwch cymunedol.
Mae yna bobl sy'n byw mewn tlodi sy'n deall fod pethau'n anodd, ond nad ydynt o reidrwydd yn dweud eu bod yn byw mewn tlodi a allai olygu eu bod yn anoddach i'w hadnabod a'u cefnogi gan nad ydynt o bosibl yn credu fod y strategaeth ar eu cyfer nhw.

**C13. A yw'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymateb yn ddigonol i'r croestoriad rhwng tlodi plant â nodweddion gwarchodedig (fel ethnigrwydd, rhywedd, anabledd a rhywioldeb) a phrofiad y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Ydw ☐

Ansicr ☒

Nac ydw ☐

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?**

Mae yna dystiolaeth fod y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi yn debygol o fod â mwy o broblemau iechyd a'u bod yn cymryd mwy o amser i gael at wasanaethau iechyd na'r rhai hynny sy'n fwy cefnog. Gall hyn fod o ganlyniad i'r angen i barhau i weithio, problemau yn ymwneud â thai neu gyfrifoldebau gofalu. Nid yw'n ymddangos fod yna unrhyw beth i fynd i'r afael ag anghysonderau yn ymwneud ag iechyd a sicrhau mynediad tecach, a heb hynny gallai mwy o ddyddiau gael eu colli o addysg neu gallu cael mynediad at wasanaethau. Rydym yn nodi fod iechyd meddwl yn cael ei gynnwys fel un o'r meysydd lle mae camau gweithredu'n cael eu cymryd ond fel ymarferwyr diogelwch cymunedol mae'r prinder mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn darparu heriau ychwanegol. Gallai'r prinder neu fwlch hwn gael effaith niweidiol ar ganlyniadau cyffredinol y strategaeth.
Rydym hefyd yn credu y gallai fod yna rywbeth nad yw'n cael ei gynnwys ar hyn o bryd yn ymwneud â benthycwyr arian didrwydded a grwpiau trosedd cyfundrefnol a allai lenwi neu geisio llenwi'r gwacter a achosir gan dlodi. Er na fydd y strategaeth yn atal y rhain rhag gweithredu os yw pobl yn cael eu codi o dlodi yna efallai na fydd y dewisiadau hyn mor apelgar a gallai pobl fod â dewisiadau eraill neu efallai na fyddant yn cael eu tynnu i mewn ganddynt o gwbl.
Nid yw troseddu ymysg yr ifanc a'r rhai hynny sydd mewn perygl o droseddu yn eglur yn y Strategaeth Ddrafft. Mae'n ehangach na dim ond y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Strategaeth ac mae'n bosibl fod angen iddynt gynnwys elfennau sy'n gwneud pobl yn ddiamddiffyn a sy'n gadael plant a phobl ifanc yn fwy agored.

**C14. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai cynnig y Strategaeth Tlodi Plant yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?  Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y gallai'r strategaeth eu cael ar y defnydd o Gymraeg.

**C15. Hoffem gael eich barn ar yr Asesiad Effaith Integredig.**
**A oes unrhyw feysydd penodol lle y mae angen rhagor o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech eu nodi a all effeithio ar grŵp penodol?**
Fel Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru fe hoffem weld ychydig o gyfeirio at yr effeithiau cadarnhaol a allai ddigwydd i unigolion a chymunedau mewn perthynas â diogelwch cymunedol. Er enghraifft mae trosedd feddiangar wedi ei godi gyda ni fel effaith posibl yr argyfwng costau byw o ganlyniad i ddiffyg arian i dalu am eitemau. Os na all plant a phobl ifanc gael mynediad at weithgareddau gan nad ydynt o fewn cyrraedd yn ariannol yna gall hyn arwain at blant a phobl ifanc sy'n teimlo fel pe baent ar wahân i'w cymunedau a gall hyn arwain at gynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gweithgareddau eraill.

**C16. Hoffem gael eich barn am yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.**
**A oes unrhyw feysydd penodol lle y mae angen rhagor o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech eu nodi a all effeithio ar blant?**
Dim ymateb.

**C17. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**
Mae diogelwch cymunedol yn gweithio ar draws meysydd datganoledig a meysydd a gedwir i wneud i bobl a chymunedau deimlo'n ddiogel. Yn debyg i hynny bydd angen i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau a chydweithio, fel y nodir yn y strategaeth hon, hefyd weithio ar draws meysydd datganoledig a meysydd a gedwir a rhwng cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu yn y sfferau hynny a gall fod yn faes y gellid ei gryfhau o fewn y strategaeth ei hun.

Yn ystod pandemig Covid-19, roedd yna elfen cymuned ymarfer, lle roedd pobl yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i gyfleu'r neges i bobl ynglŷn â pha gefnogaeth oedd ar gael iddynt. Mae angen parhau â'r gefnogaeth hon yn y dyfodol fel dysgu trwy arfer da.

Nodwyd yn y gweithdy fod y cynllun hirdymor yn hanfodol, gan fod blynyddoedd wedi eu treulio yn gweithio yn y maes hwn ac rydym wedi dod yn ôl mewn cylch cyfan bron mewn cydberthynas uniongyrchol â Chostau Byw, Covid-19 a thlodi. Rydym yn credu y bydd y Strategaeth hon, pe baem yn gweithio gyda'n gilydd arni, yn cael effaith, ond mae angen iddi gael ei gwreiddio yn ein holl ystyriaethau tua'r dyfodol ac ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, mae'n rhaid i ni wneud hyn gyda'n gilydd ac mae angen i hyn fod yn neges allweddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu ymateb ar wahân sydd â manylion ar ran Awdurdodau Lleol rydym yn eu cefnogi ac mae'n ymdrin â'r ystod ehangach o waith maent yn ymgymryd ag ef. Mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol ac yn cymryd i ystyriaeth ystod ehangach o sefydliadau partner, nid dim ond Awdurdodau Lleol.